



Deg o bethau i'w gwneud yn Nyffryn Dyfrdwy

Gweithgareddau i'r teulu

Dewch i ddarganfod tirlun darluniadwy Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte.

Allwch chi gwblhau'r deg o heriau i gyd?

Cwblhewch yr heriau ym mhob lleoliad a chipiwch lun neu fideo a'i rhannu ar gyfryngau cymdeithasol. Chwiliwch **AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**.

#EinTirlunDarluniadwy

#DarganfodGogleddCymru

#FyNghymru

Mae pob un o'r heriau'n rhad ac am ddim, ond efallai y bydd yn rhaid talu am barcio ar gyfer rhai ohonynt.

Pont y Galedryd

Dewch o hyd i'r rowndel yn nodi dechrau Safle Treftadaeth y Byd yng Ngledrid.

Dyfrbont Y Waun

Cerddwch dros y dyfrbont a trwy'r twnnel yn Y Waun.

Tŷ Mawr

Dysgu enwau'r lamas ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr.

Deg o bethau i'w gwneud yn Nyffryn Dyfrdwy

Pontcysyllte

Adeiladwch Dyfrbont Pontcysyllte yng Nghanolfan Ymwelwyr Basn Trefor.

Plas Newydd

Cwblhewch helfa'r ardd ym Mhlas Newydd.

Dinas Brân

Cerddwch i Gastell Dinas Brân a thynnu llun o'r olygfa o ben y bryn.

Warchodfa Natur Wenffrwd

Cwblhewch y daith gerdded gylchol yn Warchodfa Natur Wenffrwd.

Glyn y Groes

Ewch i Abaty Glyn y Groes i weld pwy fu'n byw yno 800 o flynyddoedd yn ôl.

Rheilffordd Llangollen

Tynnwch lun o drên stem yn Nyffryn Dyfrdwy.

Pen y Pigyn, Corwen

Cerddwch ar draws y cerrig camu ym Mhen y Pigyn.